CONFA ARCHES GOB CYMRU
ER BUDD PLANT

THE ARCHBISHOP OF WALES
FUND FOR CHILDREN

Mai 2011

# Cylchlythyr Ymddiriedolwyr

Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant

Mae tipyn o amser ers i'r Ymddiriedolwyr gynhyrchu cylchlythyr am eu gwaith ac, o ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i 2009 a 2010. Er gwaethaf y dirwasgiad ac anawsterau economaidd eraill, derbyniodd y gronfa roddion, yn cynnwys ad-daliadau treth cymorth rhodd, o £53,000 yn 2009 a £39,000 yn 2010. Mae'r ffigurau hyn yn is na derbyniadau 2008, ond mae hyn yn bennaf oherwydd i'r gronfa elwa'n sylweddol yn 2008 ar ymdrechion y teulu Tovey a gododd swm sylweddol o arian trwy gynnal taith gerdded.

Pleser oedd nodi bod nifer y ceisiadau gan blwyfi yng Nghymru wedi cynyddu, sy'n dangos bod y weinidogaeth yn fyw ac iach ymhlith plant a phobl ifanc ledled y wlad. Cefnogodd y gronfa 44 o brosiectau i gyd, ac mae rhagor o wybodaeth amdanynt wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr. Mae'r grantiau yn amrywio o lai na £100 i £5,000. Ar y cyfan, rhoddir y grantiau i gefnogi prosiectau lleol sy'n annhebygol o gael cyllid o ffynonellau eraill.

Ar ran yr Archesgob a'r Ymddiriedolwyr, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gronfa'n hael dros y ddwy flynedd diwethaf, gan gynnwys yr holl blwyfolion o blwyfi ym mhob cwr o Gymru, y rhai a gyfrannodd trwy Bwyllgor Casnewydd a phlant o ysgolion lleol ledled y wlad. Mae eich cefnogaeth wedi sicrhau parhâd y weinidogaeth bwysig hon yn enw'r Iesu. Cofiwch barhau i gefnogi'r gronfa.

**J Michael Williams**
Cadeirydd

## Prosiectau

Mae rhestr lawn o'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi ar gael ar ein gwefan yn www.eglwysyngnghymru.org.uk

Rydym wedi dewis sampl o'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi er mwyn i chi, ein rhoddwyr caredig, gael syniad o ehangder y gefnogaeth sydd ei hangen ledled Cymru. Gyda chynlluniau gwario'r Llywodraeth yn debygol o effeithio ar bob rhan o'r gymdeithas, mae rhoddion i Gronfa Archesgob Cymru er budd Plant yn bwysicach nag erioed.

## The Lab (Esgobaeth Mynwy)

Lansiwyd y prosiect hwn gan Esgob Mynwy yn 2006 gyda'r nod o ddatblygu cymuned eglwys o fyfyrwyr ac oedolion ifanc yn yr ardal na fyddai ganddynt gysylltiad ag eglwys draddodiadol fel arall.

Yn 2009 a 2010, cefnogodd yr Ymddiriedolwyr y prosiect hwn gyda grantiau o £16,000. Trwy arweinydd grŵp a dau wirfoddolwr llawn amser a oedd yn cymryd blwyddyn i ffwrdd, mae'r prosiect wedi bod yn gweithio yn ardal Alway yng Nghasnewydd i ddarparu gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn Ysgol Uwchradd Hartridge, cyflwyno gwasanaethau wythnosol yn Ysgol Gynradd Alway ynghyd â sesiynau celf a chrefft rheolaidd ar ôl ysgol, sefydlu Clwb Ieuenctid Bishpool, cyflwyno prosiectau gwaith ieuenctid ar ystâd Alway yn ystod gwyliau ysgol, a sefydlu partneriaeth hyfforddi a hyfforddiant trwy Bartneriaeth Streetspace sy'n ceisio creu rhwydwaith cenedlaethol o brosiectau ieuenctid blaengar. Gallwch ddysgu mwy am y fenter hynod lwyddiannus hon yn www.thelabnewport.org Mae'r ymddiriedolwyr yn hynod falch o gael cefnogi menter mor arloesol.

## Canolfannau Cyswllt Plant (Esgobaethau Llandaf, Abertawe ac Aberhonddu a Mynwy)

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi cymaint ag wyth grant bach gwerth dros £12,000 i nifer o Ganolfannau Cyswllt Plant ledled Cymru.

Mae'r canolfannau hyn yn darparu amgylcheddau diogel lle gall plant o deuluoedd sydd wedi chwalu gyfarfod yn rheolaidd â'u rhieni ac aelodau eraill o'r teulu mewn lleoliadau dan oruchwyliaeth. Fel arall, mi fyddai'r plant diniwed hyn, oherwydd eu hamgylchiadau, yn gallu gweld eu teulu. Mae hwn yn faes gwaith pwysig, ac ni fyddai'n gallu parhau heb gefnogaeth Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant a chefnogaeth ymddiriedolaethau tebyg eraill gan ei fod yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar roddion a gwirfoddolwyr. Mae'r canolfannau a gefnogir yn cynnwys Aberhonddu, Aberdâr, Glynebwy, Merthyr Tudful, Pontllan-fraith a Phontypridd.

## Tyfu Gyda'n Gilydd (Esgobaeth Bangor)

Lansiodd plwyf Dyffryn Ardudwy, rhwng y Bermo a Harlech, grŵp newydd ar gyfer rhieni ifanc â babanod a phlant bach lle gallent gyfarfod yn eu cymuned a chael cymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol.

Gyda chymorth grant o £3,000 gan Gronfa Archesgob Cymru er budd Plant, mae'r fenter, a ddechreuwyd gan y gymuned eglwys leol, wedi gallu darparu lleoliad i rieni ifanc gyfarfod, mynychu dosbarthiadau cynenedigol a dosbarthiadau sgiliau rhianta, cyfnewid a phrynu dillad babanod, teganau a chyfarpar ail law a manteisio ar "wasanaethau pram" misol, o fewn tafliad carreg i'w cartref.

Ffôn: 029 2034 8200
Ebost: awfc@churchinwales.org.uk

Elusen Gofrestredig 1102236

YR EGLWYS YNG NGHYMRU · THE CHURCH IN WALES

Telephone: 029 2034 8200
E mail: awfc@churchinwales.org.uk

A Registered Charity 1102236

# Celf a Chwarae Moelfre (Esgobaeth Bangor)

Ar Ynys Môn, derbyniodd Celf a Chwarae Moelfre grant o £1,250 i gefnogi rhaglen o weithgareddau i blant a phobl ifanc 8 i 15 oed yn ystod gwyliau'r Pasg yn 2009.

Defnyddiwyd yr arian i brynu deunyddiau celf a thalu am gymorth arbenigol i addysgu celf. Ardal Moelfre a Llanallgo yw un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran tlodi plant. Mae'r grant gan Gronfa Archesgob Cymru er budd Plant wedi sicrhau bod plant ifanc yn cael cyfleoedd yn ystod gwyliau ysgol na fyddai ar gael iddynt fel arall.

# Hope UK (Esgobaeth Tyddewi)

Hope UK yw olynydd UK Band of Hope a sefydlwyd ym 1855. Bydd gan lawer o aelodau hŷn ein heglwysi atgofion melys am y Gobeithlu lleol a gynhaliwyd ledled Cymru.

Derbyniodd ei olynydd, Hope UK, grant o £1,000 i helpu i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffuriau i blant ysgol ym Mrynaman yn Ysgol Gynradd Tairgwath ac Ysgol Gynradd Betws. Dim ond trwy'r sector gwirfoddol y gellir darparu ar gyfer y maes addysg pwysig hwn.

# Barnardo's (Esgobaeth Llanelwy)

Gyda grant o £2,000, a thrwy Grŵp Cynhalwyr Ifanc Sir y Fflint, mae Barnardo's wedi gallu talu costau darparu gweithgareddau hamdden am flwyddyn i grŵp o 25 o gynhalwyr ifanc.

Mae'r gweithgareddau'n rhoi cyfle gwerthfawr i'r cynhalwyr ifanc anghofio am eu cyfrifoldebau gofalu am awr neu ddwy a chael hwyl fel unrhyw blentyn arall. Mae hefyd yn eu helpu i hyrwyddo sgiliau cyfathrebu da, a'u galluogi i wneud ffrindiau gyda phobl ifanc eraill sydd yn yr un sefyllfa â nhw.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gobeithio y bydd y prosiectau a nodir uchod yn dangos bod yr arian a gyfrannwyd gennych wedi'i ddefnyddio'n synhwyrol i gefnogi plant a theuluoedd mewn angen ledled Cymru.

**Gobeithio y byddwch chi'n parhau i gyfrannu at y Gronfa er mwyn ein galluogi ni i helpu plant mewn angen yng Nghymru, yn enw'r Iesu.**

# Cyhoeddusrwydd a Bocsys

Os byddwch chi angen deunydd cyhoeddusrwydd i'ch helpu i godi arian, ffoniwch Gemma Brookman yng Nghorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ar 029 2034 8235 neu anfonwch e-bost at **gemmabrookman@churchinwales.org.uk**

# Cymorth Rhodd

Os ydych chi'n drethdalwr yn y DU, gallech ychwanegu cymorth rhodd at eich cyfraniad a bydd Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant yn gallu hawlio'r treth yn ôl gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn 2009, daeth yr adenillion treth i gyfanswm o £1,718 a £1,048 yn 2010.

Cyfieithwyd gan Testun





WORLD LAND TRUST™
www.carbonbalancedpaper.com


# CRONFA ARCHESGOB CYMRU ER BUDD PLANT

## GRANTIAU A RODDWYD YN 2009 A 2010

| **Llandaf** | **£** |
|---|---|
| Pwyllgor Digwyddiadau Cyhoeddus Corneli | 467 |
| Plwyf Coety, Nolton a Brackla | 3000 |
| YMCA Aberpennar | 2300 |
| Prosiect Ieuenctid Blaenllechau | 2345 |
| Canolfan Cyswllt Plant Aberdâr | 1000 |
| Canolfan Cyswllt Plant Pontypridd | 1000 |
| Canolfan Cyswllt Plant Merthyr Tudful | 1000 |
| St Catherines Pontypridd | 2847 |
| Cerddoriaeth yn y Gymuned, Cymru – Caergaint | 5000 |
| Canolfan Deulu Tregenna | 2000 |
| Teddy Bear Toddlers (Castell-nedd) | 171 |
| Byddin yr Iachawdwriaeth | 1000 |
| Ymddiriedolaeth Fethodistaidd Amelia | 2172 |
| Plwyf Cwm Nedd | 2376 |

| **Mynwy** | **£** |
|---|---|
| Canolfan Cyswllt Plant Glynebwy | 1860 |
| (2 grant) | 1500 |
| Canolfan Ieuenctid "The Lab" | 16000 |
| REAL (Rhisga) | 1000 |
| Canolfan Gyswllt Pontllan-fraith | 1780 |
| Ysgol Sul Sant Ioan (Casnewydd) | 250 |
| Canolfan Gyswllt Cwmbrân | 600 |
| St Marys (Cwmfelinfach) | 70 |

| **Bangor** | **£** |
|---|---|
| Tyfu Gyda'n Gilydd | 3000 |
| (2 grants) | 2500 |
| Moelfre Art and Play | 1250 |
| Clwb Chwarae Plant | 1000 |
| Bro Eco'r Wyddfa (Cynllan Efe) | 2000 |

| **Llanelwy** | **£** |
|---|---|
| Clwb Trillo | 2000 |
| Eglwys Gadeiriol Llanelwy – Ymweliadau Ysgol | 950 |
| Barnardo's | 2000 |
| Theatr Ieuenctid Bitesize | 700 |
| Ysgol y Llan | 480 |
| PCC Llandysilio (Llanymynech) | 1000 |
| Ymddiriedolaeth Ieuenctid Hope 37 | 1300 |
| Canolfan Dewi Sant | 5000 |

| **Abertawe ac Aberhonddu** | **£** |
|---|---|
| Canolfan Cyswllt Plant Aberhonddu | 2000 |
| Morriston AFC | 595 |
| Eglwys Sant Ioan (Wrecsam) | 1426 |
| Teenagers Together (Y Drenewydd) | 1800 |

| **Tyddewi** | **£** |
|---|---|
| Hope UK (Brynaman) | 1000 |
| Canolfan Deulu Sant Paul | 3325 |

| **Cymru Gyfan** | **£** |
|---|---|
| Contact A Family | 930 |
| Bullies Out | 460 |